

CRONFA BENSIWN CYNGOR SIR POWYS

**DATGANIAD POLISI
CYFATHREBU**

Chwefror 2012

CRONFA BENSIWN CYNGOR SIR POWYS

DATGANIAD POLISI CYFATHREBU

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Rheoliad 4 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) (Rhif 2) 2005 [OS 2005 Rhif 3199] yn diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 ac mae'n mynnu bod Cyngor Sir Powys yn paratoi, yn cyhoeddi ac yn cynnal datganiad sy'n mynegi strategaeth y Cyngor ar gyfer cyfathrebu a hyrwyddo'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- 1.2 Mae strategaeth gyfathrebu effeithiol yn hanfodol i unrhyw sefydliad sy'n ceisio darparu gwasanaeth cyson ac o ansawdd i'w gwsmeriaid. Mae cymhlethdod pensiynau yn gyffredinol a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn benodol, yn gosod cyfathrebu yn ganolog i ddarpariaeth gwasanaeth o ansawdd.
- 1.3 Ceir chwech o grwpiau gwahanol y mae angen i Gronfa Bensiwn Cyngor Sir Powys gyfathrebu gyda nhw:
- Ymddiriedolwyr
 - Aelodau'r Cynllun
 - Darpar Aelodau'r Cynllun
 - Cyflogwyr y Cynllun
 - Staff Pensiynau
 - Cyrff Eraill
- 1.4 Wedi'u datgan yn y ddogfen hon y mae'r peirianweithiau a ddefnyddir i gyfathrebu gyda phob un o'r grwpiau hyn, ynghyd â strategaeth ar gyfer ehangu a gwella cyfathrebu, a hyrwyddo'r Cynllun ymysg rhai nad ydynt yn aelodau.

2. Ymddiriedolwyr

- 2.1 Mae Ymddiriedolwyr y Gronfa Bensiwn (pum Aelod Etholedig o Gyngor Sir Powys ynghyd â dau aelod nad ydynt yn pleidleisio yn cynrychioli cyflogwyr sy'n rhan o'r Cynllun ac aelodau'r cynllun, ac sy'n eistedd ar y Panel Pensiynau a Buddsoddiadau) yn cael gwybodaeth, yn bennaf ar ffurf adroddiadau (yn ysgrifenedig a llafar) a gohebiaeth, sy'n rhoi sylw i faterion gweinyddu a buddsoddi. Mae aelodau'r panel hefyd yn mynychu cynadleddau a seminarau ar CPLIL.
- 2.2 *Mae'n orfodol i aelodau newydd y Panel gwblhau'r hyfforddiant priodol i Ymddiriedolwyr. Caiff hyfforddiant a gwybodaeth ychwanegol eu darparu gan gynghorwyr a Swyddogion y Cyngor Sir. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn y Cynllun Hyfforddiant i Ymddiriedolwyr sydd fel atodiad i Ddatganiad Polisi Llywodraethu'r Cyngor Sir.*

3. Aelodau'r Cynllun

- 3.1 Cylchlythyron – dosberthir y rhain i holl aelodau gweithredol a phensiynwyr y gronfa gan roi sylw i CPLIL a materion cysylltiedig, pryd bynnag y bo hynny'n ofynnol.
- 3.2 Datganiadau Buddion – dosberthir y rhain i'r holl aelodau gweithredol a'r holl aelodau gohiriedig (os delir y manylion cyfeiriad cartref presennol) bob blwyddyn. Mae'r datganiadau'n cynnwys Buddion Cynllun y Wladwriaeth ac fe'u cynhyrchir mewn cydweithrediad â'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- 3.3 Deunydd Darllen y Cynllun – Mae Cyngor Sir Powys yn cynhyrchu amrywiaeth o wybodaeth a deunydd darllen ar gyfer y Cynllun a chânt eu rhoi'n uniongyrchol i gyflogwyr ac aelodau'r Cynllun, pryd bynnag y bo hynny'n ofynnol.
- 3.4 Hysbysiadau Taliadau – mae Cyngor Sir Powys yn cyflwyno hysbysiadau taliadau i holl bensiynwyr ei Gronfa ddwywaith y flwyddyn, neu fwy'n aml pan fydd swm y taliadau'n amrywio o fis i fis.
- 3.5 Cynnydd mewn Pensiwn – hysbysir holl bensiynwyr y Gronfa o'r cynnydd blynyddol yn eu pensiwn drwy gyfrwng llythyr personoledig a ddosberthir yn Ebrill bob blwyddyn.
- 3.6 Gohebiaeth - mae'r Cyngor Sir yn defnyddio post arferol ac e-bost i anfon a derbyn gohebiaeth gydag aelodau'r Cynllun.
- 3.7 Teleffon – mae'r Cyngor Sir yn cyfathrebu llawer iawn gydag aelodau unigol y Cynllun dros y ffôn.
- 3.8 Clinigau Pensiwn - Mae'r Cyngor Sir yn darparu gwasanaeth clinig achlysurol lle mae aelodau'r Cynllun yn cael cyfle i drafod eu materion pensiwn unigol wyneb-wrth-wyneb.
- 3.9 Cyrsiau Sefydlu – Mae holl weithwyr newydd Cyngor Sir Powys yn mynd ar gwrs sefydlu undydd ac fel rhan o'r cwrs caiff un slot ei neilltuo i roi arweiniad byr am y CPLIL.
- 3.10 Cyrsiau Cyn-ymddeol – Gwahoddir y holl staff sy'n ymddeol o Gyngor Sir Powys i fynychu cwrs cyn-ymddeol lle caiff slot ei neilltuo i esbonio'r buddion sy'n cael eu talu i'r rheini sy'n ymddeol.
- 3.11 Y Gymraeg - pryd bynnag y bo hynny'n bosibl mae'r Gronfa yn rhoi mynediad i ddogfennau'r Cynllun drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 3.12 Bydd cyrsiau adolygu pensiwn canol gyrfa, a fwriedir ar gyfer pobl rhwng 40 a 55, yn cael eu datblygu. Bydd cyrsiau o'r fath yn galluogi aelodau'r Cynllun i adolygu eu darpariaethau pensiwn a dechrau'r cynllunio ariannol sy'n ofynnol.
- 3.13 Bydd gwefan ar gyfer y Gronfa Bensiwn yn cael ei datblygu er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o wybodaeth ar gael i aelodau'r Cynllun a phartion sydd â diddordeb. Disgwylir lansio'r safle ym mis Ebrill 2012.

4. Darpar Aelodau'r Cynllun

- 4.1 Arweiniad i'r Cynllun – Darperir i holl ddarpar aelodau newydd y Cynllun wybodaeth am y Cynllun adeg eu penodi.
- 4.2 Cyrsiau Sefydlu – Mae holl weithwyr newydd Cyngor Sir Powys yn mynd ar gwrs sefydlu undydd lle caiff slot ei neilltuo i roi arweiniad byr am y CPLIL.
- 4.3 Mae gwefan ar gyfer y Gronfa Bensiwn yn cael ei datblygu er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o wybodaeth ar gael i ddarpar aelodau'r Cynllun, cyflogwyr a phartion eraill sydd â diddordeb. Disgwylir lansio'r wefan ym mis Ebrill 2012.
- 4.4 *Bydd y Gronfa yn gofyn am hysbysiad ffurfiol o'r rheini nad ydynt yn ymuno oddi wrth gyflogwyr y Cynllun. Defnyddir y wybodaeth i farchnata'r Cynllun gyda deunydd darllen at y pwrpas.*
- 4.5 *Bydd y Gronfa yn gweithio gyda'r Unedau Llafur perthnasol i sicrhau bod yr holl bartion sydd â diddordeb yn deall y Cynllun. Gwneir ymdrechion i sicrhau bod yr holl faterion sy'n gysylltiedig â phensiynau yn cael eu mynegi'n effeithiol wrth yr Undebau Llafur.*

5. Cyflogwyr y Cynllun

- 5.1 Arweiniad i Gyflogwyr – Rhoddir Arweiniad i Gyflogwyr i bob cyflogwr er mwyn eu cynorthwyo gyda'r gwaith gweinyddu sy'n gysylltiedig â chyfranogi yn y Cynllun.
- 5.2 Ymddeoliadau ar sail Gwaeledd – Mae'r Gronfa wedi sicrhau mynediad, i'r holl gyflogwyr cyfranogol, at Feddyg Iechyd Galwedigaethol Cymeradwy'r Gronfa Bensiwn.
- 5.3 Cyfarfodydd ac Adroddiadau i Gyflogwyr – Trefnwyd cyfarfodydd achlysurol i gyflogwyr. Yn benodol, defnyddiwyd y rhain i roi canlyniadau'r prisiadau teirblwydd. Yn ogystal, mae Cyflogwyr yn cael copïau o

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Gronfa, y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi, y Datganiad Strategaeth Ariannu a'r Polisi Llywodraethu.

- 5.4 Diweddariadau Technegol – Anfonir y rhain at gyflogwyr o bryd i'w gilydd i'w hysbysu o newidiadau pwysig yn y Cynllun a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig.
- 5.5 *Rhagwelir y bydd diweddariadau technegol i gyflogwyr yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd ar ffurf papur briffio chwarterol, gan gynnwys yn ychwanegol at newidiadau yn y Cynllun, faterion sydd o ddiddordeb ac a drafodir yn genedlaethol o safbwynt datblygiad y Cynllun i'r dyfodol a materion eraill cysylltiedig â phensiynau.*
- 5.6 Mae gwefan ar gyfer y Gronfa Bensiwn yn cael ei datblygu er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o wybodaeth ar gael i aelodau'r Cynllun, cyflogwyr a phartion eraill sydd â diddordeb. Disgwylir lansio'r safle ym mis Ebrill 2012.

6. Staff Pensiynau

- 6.1 Cyfarfodydd Tîm – mae'r Gweinyddwyr Pensiynau yn cyfarfod bob chwarter lle mae aelodau'r tîm yn ystyried materion gweithdrefnol; yn cynllunio gwaith a datblygiadau ar gyfer y chwarter nesaf a thu hwnt; a, lle mae'r tîm yn cael y diweddaraf am ddatblygiadau a newidiadau yn y Cynllun.
- 6.2 Gwybodaeth Dechnegol – Caiff Bwletinau a Chylchlythyron a gyflwynir gan y CPLIL ynghyd ag arweiniadau a dogfennau ymgynghori oddi wrth yr ODPM eu cylchredeg at holl aelodau'r tîm er gwybodaeth. Yn ogystal, mae'r Rheolwr Pensiynau yn darparu arweiniadau gweithdrefnol mewnol ad hoc, nodiadau gweithdrefnau ac esboniadau technegol i aelodau'r tîm pryd bynnag y bo hynny'n ofynnol.
- 6.3 Mewnrwyd a Rhyngrwyd – Mae'r holl staff wedi'u galluogi i ddefnyddio'r rhwydwaith corfforaethol er mwyn cael mynediad i Fewnrwyd Powys a'r rhyngrwyd.
- 6.4 E-bost – Mae gan yr holl staff fynediad i gyfleusterau e-bost.
- 6.5 Rheolwr Pensiynau – Mae'r Rheolwr Pensiynau yn cynnal polisi drws agored ac yn ymdrechu i fod ar gael i'r holl staff gydol yr amser.

7. Cyrff Eraill

- 7.1 Fforwm Gwybodaeth Cenedlaethol – Mae'r Gronfa yn cyfranogi yn y Fforwm Gwybodaeth Cenedlaethol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin a rhannu'r arferion gorau.
- 7.2 Grŵp Swyddogion Pensiynau De a Chanolbarth Cymru – mae'r Swyddogion Pensiynau o awdurdodau gweinyddu yn y rhanbarth yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a rheoliadau cysylltiedig eraill yn cael eu dehongli'n gyson. Caiff safbwyntiau'r grŵp eu pasio ymlaen i'r lefel genedlaethol drwy gyfrwng Cyfarfodydd Grŵp Technegol y Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol (braich o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol) a gynhelir bob chwarter.
- 7.3 Grŵp Partneriaeth Pensiynau Cymru – Mae Swyddogion Pensiynau o'r 8 awdurdodau gweinyddu yng Nghymru yn cyfarfod yn achlysurol er mwyn datblygu a hyrwyddo llenyddiaeth sy'n gyffredin ar gyfer y cynllun.
- 7.4 Grŵp CLASS – Fel defnyddiwr System Gweinyddu Pensiynau Axis, mae'r Gronfa yn aelod o Grŵp CLASS yr awdurdod lleol ac yn mynd i grwpiau defnyddwyr rhanbarthol a chyfarfodydd cenedlaethol.
- 7.5 Cynllun Twyll Cenedlaethol – Mae'r Gronfa wedi cyfranogi yn y Cynllun Twyll Cenedlaethol er 1998. Mae hyn wedi helpu i osgoi gordalu buddion pensiynau i bensiynwyr ymadawedig a phensiynwyr sy'n cael eu hail-gyflogi.

8. Manylion Cysylltu

- 8.1 Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau, ymholiadau neu sylwadau am y Datganiad hwn at:

Clare Williams,
Pennaeth Cyllid
Cyngor Sir Powys,
Neuadd y Sir,
Llandrindod,
Powys LD1 5LG